Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

## Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 - Crynodeb

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 1. TROSOLWG

**Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) 2014-2020 wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ('UE') trwy'r Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ('EAFRD'). Mae'r Rhaglen Cymru gyfan yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau a'u bwriad yw cynyddu cynaliadwyedd a chadernid amgylchedd naturiol, sector ar y tir, busnesau bwyd a chymunedau gwledig Cymru.**

Mae cyllideb o hyd at €971 miliwn wedi'i chytuno ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn yn cynnwys rhyw €652 miliwn o gyllid yr UE a €319 miliwn o arian Llywodraeth Cymru ei hun. Cyflwynir y mwyafrif o weithgareddau a gefnogir trwy'r Rhaglen ar ffurf 'cynlluniau' y gellir eu grwpio'n fras fel a ganlyn:

| Blaenoriaeth | Cyllideb yr UE | Cyfanswm y Gyllideb | Gwariant yr UE | Cyfanswm y Gwariant |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol (gan gynnwys cymorth Cyswllt Ffermio) | €125.51m | €217.21m | €6.71m | €11.52m |
| Cynlluniau Buddsoddi (fel y grant Cynhyrchu Cynaliadwy) | €113.12m | €162.04m | €12.89m | €19.69m |
| Cynlluniau Amaeth-Amgylchedd-Hinsawdd (Glastir) | €314.28m | €418.59m | €92.37m | €124.24m |
| Cynlluniau Datblygu Lleol (gan gynnwys LEADER) | €78.10m | €133.30m | €4.19m | €5.58m |
| Gweithgareddau Eraill (fel Rhwydwaith Gwledig Cymru) | €20.58m | €38.83m | €1.09m | €2.06m |
| **Cyfanswm oedd ar gael o dan y Rhaglen** | **€651.59m** | **€970.87m** | **€117.25m** | **€163.09m** |

Dyrennir cyllideb i bob cynllun a gyflwynir yn y Rhaglen Datblygu Gwledig. Pennir targedau ar gyfer yr hyn y disgwylir ei gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r targedau hyn drwy gydol bob blwyddyn. Nodir cynnydd tuag at y targedau yn yr adroddiad blynyddol a gaiff ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Mae'r monitro hwn yn sicrhau y caiff yr arian ei wario yn y modd a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae copi o'r adroddiadau hyn ar gael yma.


Mae gwerthuso yn rhan allweddol o'r Rhaglen er mwyn helpu i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen a nodi meysydd y gellir eu gwella. Mae nifer o ganllawiau wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r gwaith hwn.

# 2. CYNNYDD Y RHAGLEN

**Ers diwedd 2015 talwyd cyfanswm o €163.1 miliwn o dan y Rhaglen, a thalwyd €104.1 miliwn o hyn yn 2017 yn unig. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid (€124.7 miliwn) a dalwyd yn ymwneud â gweithgareddau ar y tir (amaeth-amgylcheddol / coedwigaeth). Mae €117.3 miliwn o'r cyfanswm a dalwyd ers dechrau'r rhaglen wedi dod o gronfeydd Ewropeaidd, ac mae €75.4 miliwn yn dod o gyllid trosglwyddo Pillar I. Mae €67.4 miliwn o'r cyllid Pillar I hwn wedi'i dalu o dan Gynlluniau amaeth-amgylcheddol a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae gan ffermwyr a thirfeddianwyr y cyfle hefyd i wneud cais am gyllid o dan feysydd eraill y Rhaglen, fel y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren, ynghyd â'r Cynlluniau amaeth-amgylcheddol a choedwigaeth traddodiadol sydd ar gael.**

Erbyn diwedd 2017 mae rhai o'r cyflawniadau allweddol hyd yn hyn yn cynnwys:

- cyfanswm o 5,021 o gyfranogion yn derbyn hyfforddiant;
- 828 o fuddiolwyr yn derbyn cyngor arbenigol;
- creu bron i 400 hectar o goetir newydd;
- 6,105 o gontractau o dan amaeth-amgylchedd-hinsawdd, ar gyfer ardal ffisegol o 1,108,848 hec-




Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau unigol a gyflawnir trwy'r Rhaglen ar gael isod a thrwy ddilyn y cysylltiadau gwe ar gyfer pob rhaglen.

# 3. CYNLLUNIAU CYFALAF DYNOL A CHYMDEITHASOL

**Cyflwynir contractau hyfforddiant a chyngor (Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth a'r Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig) trwy Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio yn ganolog o gefnogi cyflawniad meysydd eraill o'r Rhaglen. Mae'n ffurfio'r prif ddull o gyflawni pecyn integredig o drosglwyddo gwybodaeth, cyngor a chymorth arloesi sy'n targedu cymunedau gwledig yng Nghymru.**

Cliciwch yma i weld enghraifft o sut y mae'r pecyn hyfforddiant e-ddysgu sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio wedi helpu fferm deuluol ger Y Fenni. Bwriad menter arall o dan Cyswllt Ffermio, Mentro, yw helpu i gysylltu ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno camu yn ôl o'r diwydiant â phobl newydd sy'n chwilio am ffordd i mewn i fyd ffermio. Mae enghraifft o gytundeb menter masnachu ar y cyd yng ngogledd Cymru i'w gweld yma.

Cefnogir gwasanaethau cynghori i gynorthwyo cyflawniad Glastir hefyd, ynghyd â gweithgareddau eraill y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau â chymorth grant ar gyfer mentrau sectoraidd dan arweiniad diwydiant sy'n gweithredu o'r gwaelod i fyny ac yn targedu amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd, BBaChau gwledig eraill a rheolwyr tir.

EIP Cymru yw Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol, a'i nod yw tynnu amrywiaeth o bobl a sefydliadau at ei gilydd i ddatblygu atebion arloesol, a fydd yn fuddiol i'r diwydiant ehangach yng Nghymru a'r UE. Mae EIP yn ddull newydd o gefnogi datblygiad ymchwil ac arloesi ym maes amaethyddiaeth a choetiroedd yng Nghymru. Cafwyd 67 o ymholiadau gan unigolion a oedd â diddordeb mewn EIP yn ystod 2017. Erbyn mis Rhagfyr 2017 dyfarnwyd cyllid i ddeg o brosiectau.

Mae'r Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi ('CaSCD') yn cefnogi cydweithrediad a'i bwriad yw galluogi pethau newydd i ddigwydd. Nod y cynllun yw cyflawni newid gweddnewidiol, cefnogi datblygiad cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn  y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd. Mae enghraifft o'r cymorth sydd ar gael i'w gweld yma.

Yn ogystal, mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i wella'r ffordd y mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli – bydd hynny'n cyfrannu at les cymunedau gwledig. Yn ystod 2017, agorwyd tri chyfle i wneud ceisiadau i'r cynllun, a bydd cyfleoedd pellach yn ystod 2018. Mae naw prosiect ar y gweill ar hyn o bryd, a 27 arall yn cael eu datblygu. Mae gwasanaeth newydd wedi ei lansio i helpu ffermwyr i wneud ceisiadau i'r cynllun – mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

Cafwyd dau gyfle i wneud ceisiadau cychwynnol  i'r cynllun Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth (CFP). Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i annog cynlluniau i greu coetiroedd llydanddail a chonwydd, er mwyn gwella'r ffordd mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a chyfrannu at les cymunedau gwledig yng Nghymru. Disgwylir ceisiadau llawn yn ystod 2018.

Mae nifer o gynlluniau cymorth twristiaeth ar gael drwy'r rhaglen. Caiff y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Leol (RTEF) a'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) eu gweithredu drwy Croeso Cymru a chawsant eu lansio yn 2017. Nod y cynlluniau yw annog busnesau bach i ddatblygu arferion a phrosesau newydd er mwyn datblygu cyfleoedd twristiaeth lleol. Yn ystod 2017, gwahoddwyd cyfanswm o 67 o ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau llawn o dan y cronfeydd hyn.

# 4. CYNLLUNIAU BUDDSODDI

**Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ('SPG') yn gronfa buddsoddi cyfalaf i helpu i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermydd. Yn ystod 2017 cymeradwywyd cyfanswm o 54 o geisiadau. Mae'r Grant Busnes i Ffermydd ('FBG') yn darparu cymorth ariannol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau sydd wedi'u nodi ymlaen llaw i fod yn cynnig buddion clir a meintiol i fentrau fferm. Mae dros 850 o geisiadau wedi dod i law yn ystod y ddau gylch cyntaf o FBG yn gofyn am werth £5.7 miliwn o gyllid grant.**

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren ('TBIS') yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth i goedwigoedd trwy alluogi gweithgareddau rheoli coetir, cynaeafu pren a/neu brosesu pren. Gofynnwyd i 60 o ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau llawn o'r ddau gyfnod ymgeisio cyntaf; dechreuodd trydydd cyfnod tua dechrau 2018.

Bwriad y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ('FBIS') yw helpu prif gynhyrchwyr cynhyrchion amaethyddol yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch. Mae'r cynllun yn darparu cymorth i'r busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam un a/neu dau. Cymeradwywyd cyfanswm o 35 o geisiadau FBIS erbyn diwedd 2017.

Yn ystod 2017 dechreuodd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd ('RBISF'), sy'n ategu ymyraethau eraill sy'n ymwneud â bwyd a diod yn y Rhaglen. Bu dau gyfnod o geisiadau o dan RBISF, daeth 36 o geisiadau cychwynnol i law ac mae naw o'r rhain wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn.

Dechreuodd y Cronfa Fusnes Micro Bychan – Gwledig ('MSBF') a gyflwynir gan Croeso Cymru ym mis Mai 2017. Mae'r cynllun hwn yn targedu prosiectau cyfalaf hyfyw a chynaliadwy ym maes twristiaeth sector preifat a fydd yn cefnogi datblygiad cynhyrchion twristiaeth blaenoriaethol, creu a diogelu swyddi mewn ardaloedd gwledig. Erbyn dechrau 2018 mae rhyw 204 o ymholiadau wedi dod i law ac mae 36 wedi'u gwahodd i gyflwyno cais. O'r rhain, mae 11 wedi'u cymeradwyo.






# 5. CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL

**Mae Glastir yn deulu o gynlluniau cysylltiedig yng Nghymru i gefnogi prosesau rheoli tir cynaliadwy. Bwriad Glastir yw cyflawni canlyniadau ar lefel fferm, coedwig a thirwedd mewn modd cost effeithiol.**

O dan Gynllun Grantiau Bach Glastir gall rheolwyr tir a busnesau ffermio elwa ar uchafswm y cyllid o hyd at £7,500 ar gyfer gwaith cyfalaf o dan dair thema; Carbon, Dŵr a Thirwedd a Pheillwyr.
Mae Glastir Uwch yn cyflawni cymorth ariannol wedi'i dargedu i ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawn-i'r amcanion hyn, cyflawni gwelliannau amgylcheddol ar gyfer amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr.
Mae Creu Coetir Glastir ('GWC') yn cefnogi rheolwyr tir sy'n dymuno creu coetir newydd a/neu reoli coetiroedd presennol. Mae cynllun Adfer Coetir Glastir ('GWR') wedi'i ddatblygu i alluogi coetiroedd sydd wedi'u heffeithio gan Phytophthora ramorum i gael eu hailblannu er mwyn helpu i arafu lledaeniad yr afiechyd, gan ddarparu'r cyfle i gyflwyno rhywogaethau coed amrywiol i gynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a phlâu/afiechydon.

Mae Cynllun Glastir Organig yn cefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr organig newydd a phresennol, er mwyn newid i gynhyrchu organig neu newid i gynhyrchu organig. Cliciwch yma i weld enghraifft o'r cymorth a roddir trwy'r cynllun.

Yn ystod 2017 cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol o Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir ('GMEP'), ac mae crynodeb o'r canfyddiadau ar gael yn https://gmep.wales/resources



## 6. CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

**Mae LEADER yn fath o Ddatblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned ('CLLD'). Mae 18 Grŵp Lleol ('LAG') yng Nghymru sef y wardiau cymwys yn y 21 ardal Awdurdod Lleol.** I gael gwybodaeth am eich Grwpiau Gweithredu Lleol ac i gael copïau o'r Strategaeth Datblygu Lleol ategol ar gyfer pob ardal, ewch i dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru ('WRN'). Mae enghreifftiau o brosiectau LEADER blaenorol fel y cymorth cydweithredol a roddwyd i Bartneriaeth Biosffer Dyfi.

Mae'r grantiau a gynigir trwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ('RCDF') yn darparu cyllid buddsoddi i amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn helpu i ddiwallu anghenion lleol a chryfhau cymunedau er mwyn iddyn nhw allu tyfu a ffynnu. Cafwyd tri chyfnod cyllid yn ystod 2017. Daeth 138 o geisiadau cam cyntaf i law a datblygodd 86 ohonynt i wneud cais llawn.

Dechreuodd y Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth ('TAIS') yn 2017, wedi'i gyflwyno gan Croeso Cymru, ac mae'n ategu'r cymorth twristiaeth arall a gynigir trwy'r Rhaglen. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fach i wella arwyddion safleoedd twristiaeth, adeiladu a moderneiddio canolfannau gwybodaeth twristiaeth a darparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr. Dechreuodd y cyfnod cyllid cyntaf ym mis Mai 2017 a daeth 89 o geisiadau cychwynnol i law, a gwahoddwyd 38 o'r rhain i gyflwyno cais llawn. Mae 26 o'r rhain wedi'u cymeradwyo erbyn hyn gwerth £2.47 miliwn.

## 7. RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU

**Rhan hanfodol o'r Rhaglen yw Rhwydwaith Gwledig Cymru ('WRN'). Mae'r WRN yn galluogi rhanddeiliaid i rwydweithio ac ymgysylltu, rhannu gwybodaeth, arferion gorau a phrofiad led-led Cymru, y DU ac Ewrop. Mae'r Rhwydwaith yn cyfrannu'n sylweddol at y Rhaglen trwy helpu i ychwanegu at werth y cyllid sydd ar gael.** Yn ystod 2017 aeth y WRN i nifer o ddigwyddiadau yng Nghymru, y DU ac Ewrop, fel y Ewropeaidd ar Ddatblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned ('CLLD') yn Hwngari a Chynhadledd Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU yn Belfast, Gogledd Iwerddon. Gwnaeth y rhwydwaith hefyd gynnal digwyddiadau rhannu fel digwyddiad cynllun Cynllunio Coedwig Cydweithredol a digwyddiad perisgop byw ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ('RCDF'). Mae'r WRN yn cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd i randdeiliaid yn rhoi gwybod am weithgareddau'r cynllun ynghyd â digwyddiadau gwledig ehangach y DU ac Ewrop.

## 8. RHAGOR O WYBODAETH

Mae rhagor o wybodaeth am y Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) 2014-2020 ynghyd â rhestr o'r prosiectau a gymeradwywyd ar gael yn:

https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government